# Mynd â Sir Fynwy Ymlaen



## Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28
## Polisi Cenedlaethol

Atodiad 1








monmouthshire
sir fynwy

@MonmouthshireCC **monmouthshire.gov.uk**

# Atodiad - Polisi Cenedlaethol

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yw’r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn gosod dyletswydd arnom i ddatblygu’n gynaliadwy, a dylai hyn sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Wrth wneud hyn, rydym wedi cyhoeddi amcanion lles sydd wedi eu dylunio er mwyn manteisio i’r eithaf ar ein cyfraniad tuag at gyflawni’r saith amcan lles cenedlaethol a chymryd pob cam rhesymol er mwyn cyflawni’r amcanion. Mae’r saith amcan lles yn cael eu dangos yn y diagram isod tra bod ein hamcanion lles ni wedi eu hymgorfforri yn y Cynllun hwn.




Mae’r cyfraniad a wneir gan ein hamcanion lleol tuag at y saith amcan cenedlaethol wedi ei asesu a’n cael ei ddangos yn y tabl isod.

**Cyfraniad Amcanion Llesiant y Cyngor at Nodau Llesiant Cenedlaethol**

| Amcanion Llesiant CSF | Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru sy’n fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yn lle Teg i fyw | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Yn lle Gwyrdd i fyw | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| Yn lle Ffyniannus ac Uchelgeisiol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Yn lle Diogel i fyw | | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Yn lle sydd wedi’i Gysylltu | | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Yn lle i Ddysgu | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |

Wrth gynllunio ein gwasanaethau a chymryd camau i gwrdd â'n hamcanion lles, rhaid i ni ystyried a dangos ein bod wedi gweithredu'r egwyddorion llywodraethiant cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau.

### Taro cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor ac anghenion hirdymor

Drwy gydol y cynllun, mae'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu sydd wedi eu cytuno yn flaengar ac yn ceisio cael effaith hirdymor positif. Mae'r ffocws ar leihau allyriadau carbon ac iechyd bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn bwysig iawn o ran ymladd effeithiau newid hinsawdd a fydd yn her am flynyddoedd i ddod. Mae gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi hefyd yn bwysig iawn i fynd i'r afael gyda thlodi tanwydd yn y tymor byr, tra hefyd yn cael effaith bositif hirdymor drwy leihau allyriadau carbon

### Defnyddio dull integredig, yn taro cydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda busnesau, cymunedau a phartneriaid er mwyn cyflawni ei amcanion. Mae'r saith amcan lles cenedlaethol yn ganolog i chwe amcan y Cyngor ac yn rhan o bob dim yr ydym yn gwneud. Mae'r tabl isod yn amlygu pa un o'r amcanion sydd yn effeithio ar bob un o'r saith amcan lles cenedlaethol. Mae'r cysylltiad rhwng y pethau gwahanol yr ydym am gyflawni yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol wedi ei fanylu isod. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill er mwyn eu helpu i gyflawni nifer o agweddau gwahanol yr amcanion.

### Cynnwys eraill ac ystyried eu barn.

Mae ystod o wybodaeth wedi ei ddefnyddio er mwyn llywio datblygiad y Cynllun, a gweithdai wedi eu cynnal ag ystod o gyrff sydd â diddordeb yn y sir. Mae Cyngor Sir Fynwy yn anelu i gynnwys aelodau'r gymuned lle bynnag bo'n bosib. Er enghraifft, yn gweithio gyda landlordiaid a pherchnogion eiddo er mwyn sicrhau bod cyn lleied o siopau gwag ag sydd yn bosib yng nghanol y trefi a'n amlinellu cynlluniau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wrando ar leisiau dysgwyr mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn eu helwa hwy.

### Cydlafurio ag eraill.

Mae cydlafurio yn bwysig i ni ac i'w weld yn rhan o bob amcan. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gwent er mwyn: gwella'r ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd; yn sicrhau bod yr holl gartrefi yn meddu ar gysylltedd digidol da; yn sicrhau bod pobl yn medru aros yn eu cartrefi a'u cymunedau lle bo'n bosib a'n creu cysylltiadau gwell gydag addysg bellach ac uwch.

### Buddsoddi adnoddau yn atal problemau

Mae yna ffocws cryf yn y Cynllun ar ataliaeth, gydag adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu'n gwaethygu. Mae yna ffocws ymhlith gwasanaethau gofal cymdeithasol i atal argyfyngau a lleihau'r nifer o bobl sydd yn gorfod mynd i'r ysbyty. Amcan allweddol arall yw cynnal a datblygu gwasanaethau cynnar ac ataliol ar gyfer plant a theuluoedd.

Mae'r tabl isod yn amlygu sut y mae'r hyn yr ydym am gyflawni yn y Cynllun yn integreiddio gydag ymrwymiadau eraill.

# Integreiddio'r ymrwymiadau yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol

| | Gwella cyfle bywyd – nid oes ots beth yw incwm | Mynediad at wasanaethau a chymorth i fyw bywyd iachus | Gweithlu amrywiol a chynhwysol | Cymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd gan gynnwys diwylliant, chwaraeon a democratiaeth | Adferiad byd natur, iechyd gwell ar gyfer yr amgylchedd ac afonydd | Amaethyddiaeth lleol cynaliadwy a defnyddio mwy o gynnyrch lleol a thymhorol | Sero net erbyn 2030 a'n lleihau ôl-troed carbon y sir | Canol y trefi sy'n hyfyw a'n denu buddsoddiad | Pob oedran a chefndir yn meddu ar y sgiliau i wneud yn dda yn y byd gwaith | Trafnidiaeth a Seilwaith Gynaliadwy | Tai fforddiadwy o ansawdd da | Lleihau'r nifer o bobl sydd yn dod yn ddigartref | Stoc o dai sydd yn effeithlon o ran ynni ac ôl-troed carbon isel | Pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu eraill | Gofal cymdeithasol sydd yn caniatáu pobl i fyw eu bywyd fel y mynnant | Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, hyrwyddo lles a diogelu pobl | Gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac angerddol | Gwella presenoldeb mewn ysgolion a lleihau lefelau o wahardd | Cwricwlwm newydd yng Nghymru sydd yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf drwy ddysgu ac addysgu | System addysgol sydd wir yn gynhwysol | Ddatblygu lles; boed yn emosiynol, meddyliol neu'n gorfforol . | Rhaglen o foderneiddio ysgolion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella cyfle bywyd – nid oes ots beth yw incwm | | ● | ● | | | | | | ● | | | ● | | ● | | | | ● | ● | ● | | |
| Mynediad at wasanaethau a chymorth i fyw bywyd iachus | ● | | ● | | | | | | | | | | | | ● | ● | | | | | | |
| Gweithlu amrywiol a chynhwysol | ● | ● | | | | | | | | | | | | | | | ● | | | | | |
| Cymryd rhan ym mhob agwedd o fywyd gan gynnwys diwylliant, chwaraeon a democratiaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adferiad byd natur, iechyd gwell ar gyfer yr amgylchedd ac afonydd | | | | | | ● | ● | | | ● | | | ● | | | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth lleol cynaliadwy a defnyddio mwy o gynnyrch lleol a thymhorol | | | | | ● | | ● | | | | | | | | | | | | | | | |
| Sero net erbyn 2030 a'n lleihau ôl-troed carbon y sir | | | | | ● | ● | | | | ● | | | ● | | | | | | | | | |
| Canol y trefi sy'n hyfyw a'n denu buddsoddiad | | | | | | | | | ● | ● | | | | | | | | | | | | |
| Pob oedran a chefndir yn meddu ar y sgiliau i wneud yn dda yn y byd gwaith | | ● | | | | | | ● | | | | ● | | ● | | | | ● | | ● | | |
| Trafnidiaeth a Seilwaith Cynaliadwy | | | | | ● | ● | ● | ● | ● | | | | | | | | | | | | | |
| Tai fforddiadwy o ansawdd da | | | | | | | | | | | | ● | ● | | | | | | | | | |
| Lleihau'r nifer o bobl sydd yn dod yn ddigartref | ● | ● | | | | | | | ● | | ● | | | | | | | | | | | |
| Stoc o dai sydd yn effeithlon o ran ynni ac ôl-troed carbon isel | | | | | | | ● | | | ● | ● | | | | | | | | | | | |
| Pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn parchu eraill | ● | ● | ● | | | | | | ● | | | | | | ● | ● | | ● | | ● | | |
| Gofal cymdeithasol sydd yn caniatáu pobl i fyw eu bywyd fel y mynnant | | ● | | | | | | | | | | | | ● | | ● | ● | | | | ● | |
| Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd, hyrwyddo lles a diogelu pobl | | ● | | ● | | | | | | | | | | ● | ● | | ● | | | | ● | |
| Gweithlu gofal cymdeithasol proffesiynol ac angerddol | | | ● | | | | | | | | | | | | ● | ● | | | | | | |
| Gwella presenoldeb mewn ysgolion a lleihau lefelau o wahardd | ● | | | | | | | | ● | | | ● | | ● | | | | | ● | ● | ● | ● |
| Cwricwlwm newydd yng Nghymru sydd yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf drwy ddysgu ac addysgu | ● | | | | | | | | | | | | | | | | | ● | | ● | ● | ● |
| System addysgol sydd wir yn gynhwysol | ● | | | | | | | | ● | | | ● | | ● | | | | | ● | | ● | ● |
| Datblygu lles: boed yn emosiynol, meddyliol neu'n gorfforol | | | | ● | | | | | | | | | | | ● | ● | | | ● | ● | | |
| Rhaglen o foderneiddio ysgolion | | | | | | | | | | | | | | | | | | | ● | ● | ● | |

# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y “Ddeddf”) yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad. Mae’r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob Cyngor yng Nghymru i adolygu’n barhaus i ba raddau y maent yn cwrdd â’r gofynion perfformiad. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau y mae:

- yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac effeithlon;
- trefniadau llywodraethiant yn effeithiol ar gyfer sicrhau hyn.

Y mecanwaith sydd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i gadw ei berfformiad o dan adolygiad yw hunanasesiad, gyda dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sydd yn nodi casgliadau’r hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Bydd yna asesiad o’r perfformiad hefyd yn cael ei gynnal gan banel unwaith yn ystod y cylch etholiadol, gan roi cyfle i chwilio am gyfle i sicrhau barn allanol (ac eithrio gan yr archwilwyr, rheoleiddwyr neu’r arolygwyr) ar sut y mae’r Cyngor yn cwrdd â’i ofynion perfformiad.

### Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae’r holl benderfyniadau presennol a wneir gan y Cyngor a’r Cabinet yn cael eu hasesu gan ddefnyddio asesiad o’r effaith integredig sydd yn sicrhau bod cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o’r penderfyniadau a wneir.

Mae’r Cyngor yn meddu ar ymrwymiad ers tro byd at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol gennym, sydd wedi ei baratoi o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd yn amlinellu ein hamcanion i sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae adroddiadau monitro blynyddol yn darparu diweddariadau ar y cynnydd a wneir ar y cynlluniau gweithredu sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn dangos tystiolaeth bod yna arferion da yn cael eu harfer ar draws yr adrannau. Maent i’w canfod yma.

### Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau allweddol. Mae bron unrhyw benderfyniad y mae’r Cyngor yn gwneud yn cael effaith economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn sgil natur ein cyfrifoldebau a’r graddau y mae rhai grwpiau, cymunedau a phobl fregus yn ddibynnol ar wasanaethau cyhoeddus. Ein nod yw deall effaith go iawn hyn fel ein bod yn deall sut y mae modd i ni fanteisio i’r eithaf ar y gefnogaeth yr ydym yn cynnig, a lle’n bosib, yn lleihau unrhyw effaith negatif ar y bobl sydd â’r angen mwyaf.

### Yr iaith Gymraeg

Mae’r Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, ac unrhyw safonau iaith Gymraeg perthnasol, yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau i drin y Gymraeg a’r Saesneg yn gydradd, hyrwyddo’r iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg gennym ar gyfer 2022-2027, sydd yn amlinellu gweledigaeth o sefyllfa’r iaith yn Sir Fynwy mewn pum mlynedd ac mae yna dargedau er mwyn helpu ni gyflawni hyn. Bydd yr adroddiadau monitro blynyddol yn adlewyrchu ein cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau iaith Gymraeg sydd yn rhan o’r Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau’r Iaith Gymraeg. Mae’r rhain i’w gweld yma.

# Datblygu'r Cynllun

## Adnabod y dystiolaeth

Roeddem wedi dechrau drwy gasglu ystod eang o wybodaeth er mwyn deall y materion sydd yn fwyaf pwysig i bobl. Rydym wedi datblygu ein dealltwriaeth o leoedd a'r bobl sydd yn byw yma drwy ystod o asesiadau ac ymchwil gan gynnwys yr asesiad lles, asesiad o anghenion y boblogaeth, ac ymchwil ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (RLDP). Roeddem hefyd wedi defnyddio ystod o ffynonellau o wybodaeth gan gynnwys ein hunanasesiad o'r awdurdod cyfan, blaenoriaethau'r Cabinet ac adborth drwy'r gwaith ymgysylltu.

Roedd rhai o'r materion allweddol a nodwyd yn cynnwys:

### Economaidd

- Mae economi gystadleuol gan Sir Fynwy sydd â photensial ardderchog ar gyfer twf. Fodd bynnag, mae yna gyfradd isel o fusnesau yn cael eu sefydlu yn y sir o'i gymharu gyda'r brifddinas-ranbarth a Chymru gyfan.
- Mae'r gymhareb prisiau tai ac enillion yn golygu ei fod yn anodd i bobl ifanc a chenedlaethau'r dyfodol i fyw a gweithio'n lleol.

### Cymdeithasol

- Mae yna anghydraddoldebau incwm sylweddol o fewn cymunedau, gyda chyfoeth i'w weld ochr yn ochr gyda thlodi, a hynny ar raddfa na welir mewn rhannau eraill o Gymru.
- Mae poblogaeth gennym sydd yn heneiddio; tra bod hyn yn cynnig nifer o fanteision, bydd hyn yn gosod pwysau ychwanegol ar iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae yna wahaniaethau sylweddol mewn disgwyliadau bywyd ac mae angen mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'n sicrhau bod yna ystod o raglenni ar gael er mwyn cynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl i fyw bywyd iachus.
- Mae yna lefelau da o gyraeddiadau addysgol yn y sir, ond nid yw rhai grwpiau, fel y rhai sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a phlant bregus, yn cyrraedd yr un lefel o gyraeddiadau â'r boblogaeth ehangach ac nid yw'r gagendor yn lleihau.

### Diwylliant

- Mae'r pandemig wedi lleihau'r nifer o ymweliadau ag atyniadau diwylliannol sydd yn chwarae rôl mor bwysig o ran lles, fel amgueddfeydd a theatrau, sydd yn effeithio ar eu hyfywedd.
- Mae Sir Fynwy yn mwynhau lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol. Mae nifer fawr o bobl yn gwirfoddoli sydd yn helpu adeiladu cysylltiadau ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at les.

### Amgylchedd

- Mae natur wledig Sir Fynwy yn golygu bod trafnidiaeth yn gyfrannwr sylweddol i allyriadau carbon y sir, gyda rhai ardaloedd hefyd yn profi aer o ansawdd gwael.
- Mae effeithiau newid hinsawdd yn dod yn fwy amlwg yn Sir Fynwy, yn enwedig llifogydd sydd wedi effeithio ar nifer o gymunedau yn y blynyddoedd diwethaf.

## Ymateb i dystiolaeth

Fel mudiad, rydym yn allblyg ac yn ffocysu ar adeiladu perthynas ffurfiol ac anffurfiol gyda grwpiau cymunedol er mwyn caniatáu'r Cyngor i fwrw ymlaen gyda'i flaenoriaethau wrth gydlafurio, os yn briodol. Fel rhan o hyn, rydym wedi cynnal cyfres o weithdai cydlafurio sydd wedi eu harwain gan yr Aelodau Cabinet a oedd yn adolygu'r dystiolaeth ac yn cynnwys ystod o gynrychiolwyr gyda diddordeb yn Sir Fynwy a'r arbenigedd i helpu, gan gynnwys ein staff, aelodau etholedig, partneriaid, arbenigwyr allanol ac aelodau'r gymuned sydd â'r wybodaeth a'r profiad er mwyn datblygu'r cyfeiriad strategol, y prif ganlyniadau a'r blaenoriaethau ar gyfer y cynllun corfforaethol. Yn gyffredinol, roedd y gweithdai yma yn ffocysu ar:

- Economi gref, deg a lleol
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Newid hinsawdd a'r amgylchedd
- Addysg ardderchog am fywyd
- Digartrefedd a thai
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a thlodi

Mae'r heriau polisi cyfredol sydd angen i ni fynd i'r afael gyda hwy, gan weithio gyda chymunedau, yn gymhleth ac yn esblygu. Mae'r Cynllun wedi ei greu yn erbyn cefnlen o ansicrwydd economaidd gyda'r Cyngor yn wynebu prisiau ynni cynyddol, chwyddiant, costau benthyg cynyddol a galw cynyddol am wasanaethau plant, gofal cymdeithasol i oedolion, digartrefedd, anghenion dysgu ychwanegol a thrafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol. Mae'r heriau yma ar raddfa nad ydym wedi gweld o'r blaen.

Byddwn hefyd yn parhau i edrych ar dueddiadau'r dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried y pethau sydd effeithio ar sut ydym yn gweithio yn yr hirdymor a'n bod yn medru manteisio ar fuddion y dechnoleg sy'n cael ei datblygu. Bydd hyn yn cynnwys meysydd fel symud at sero net, mynd i'r afael gyda'r hyn sy'n achosi anghydraddoldeb iechyd, sicrhau bod ein plant yn gwneud yn dda a diwygio gofal cymdeithasol.

Wrth gydnabod yr anghydraddoldeb sydd yn bodoli yn ein cymunedau, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent wedi cytuno i ddod yn rhanbarth Marmot gyda'r bwriad o weithredu'r dull hwn o weithio sydd yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ceisio lleihau'r anghydraddoldebau yng Ngwent. Bydd hyn yn ail-ffocysu ac yn sicrhau bod modd gwneud mwy o gynnydd tuag at leihau achosion anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau ar draws Gwent. Fel rhan o hyn, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r wyth Egwyddor Marmot fel fframwaith er mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy'r Cynllun Lles.

Fel partner ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws Gwent a'r hynod brofiadol, yr Athro Marmot a'r Tîm Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd o Goleg Prifysgol Llundain, er mwyn datblygu camau i fynd i'r afael gyda'r heriau sydd i'w gweld ar draws Gwent. Mae'r gwaith hwn yn llywio datblygiad Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r hyn sydd angen i ni wneud yn lleol yn Sir Fynwy ac yn ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

Rhan allweddol o hyn yw gweithio gyda'n gilydd fel gwasanaethau cyhoeddus ac fel cymunedau, er mwyn adeiladu ar yr asedau sydd gennym a datblygu datrysiadau ar gyfer yr heriau hirdymor yr ydym yn wynebu.

### Egwyddorion Marmot

- rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn
- galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y gorau o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau
- creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb
- sicrhau safon byw iach i bawb
- creu a datblygu mannau a chymunedau iach a chynaliadwy
- cryfhau rôl ac effaith atal salwch
- mynd i'r afael â hiliaeth, gwahaniaethu a'u canlyniadau
- anelu at gynaliadwyedd amgylcheddol a chydraddoldeb iechyd gyda'n gilydd